newydd

# FFURFLEN GWELLIANNAU I'CH CARTREF

**Rydym yn deall y byddwch efallai eisiau gwneud gwelliannau i'ch cartref. Er mwyn i ni fedru cymeradwyo unrhyw waith, mae'n rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth rydym yn gofyn amdani ar y ffurflen hon. Byddwn yn asesu eich cais ac yn rhoi gwybod i chi os gall y gwaith fynd yn ei flaen.**

**Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar yr eiddo tan i ni roi caniatâd i chi wneud hynny.** Pan rydych chi wedi gorffen, dychwelwch y ffurflen ac unrhyw ddogfennau ategol at ein Tîm Asedau a Chynaliadwyedd drwy'r post at Cymdeithas Tai Newydd, 5 Village Way, Tongwynlais, CF15 7NE neu drwy e-bost at enquiries@newydd.co.uk. Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn 30 diwrnod o ddyddiad derbyn ffurflen gais sydd wedi'i chwblhau'n llawn a'r holl ddogfennau ategol.

## EICH MANYLION

Eich cyfeiriad cartref:

Eich enw:

Dyddiad:

## GWELLIANT Y GWNEIR CAIS AMDANO

Disgrifiad o'r gwaith.
Nodwch gymaint o wybodaeth ag y medrwch am y gwaith yr hoffech ei gwblhau.

Ble yn eich cartref bydd y gwaith yn cael ei wneud?
Dywedwch wrthym ni ym mha ran o'r cartref y gwneir y gwaith.

Pam ydych chi eisiau cwblhau'r gwaith?
Dywedwch wrthym ni pam yr hoffech chi wneud y gwaith.

**Darparwch luniadau, frasluniau neu ffotos o'r gwaith yr hoffech ei gwblhau.**
Atodwch y rhain at yr e-bost neu amgaewch nhw gyda'r ffurflen hon pan fyddwch yn anfon y cais atom ni.

## YNGLŶN Â'R GWAITH

A fydd y gwaith yn newid neu'n tarfu ar unrhyw un o'r canlynol?

| | | |
|---|---|---|
| **Trydan** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Nwy** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Dŵr** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Plymio** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Tanwydd solet** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Strwythurol** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Mynediad i'r eiddo** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Cynllun** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Asbestos** | ☐ Bydd | ☐ Na |
| **Draenio** | ☐ Bydd | ☐ Na |

Os ydych chi wedi ticio "Bydd" i unrhyw un o'r rhain, nodwch y manylion yma:

Pryd ydych chi eisiau dechrau'r gwaith?

Pryd ydych chi'n credu y cwblheir y gwaith?

## MANYLION

Mae'n rhaid i chi nodi enw'r contractiwr fydd yn cwblhau'r gwaith. Bydd angen iddyn nhw ddarparu copi o'u polisiau yswiriant atebolrwydd cyn gellir dechrau ar unrhyw waith.

## NODYN I DENANTIAID

**Mae holl welliannau yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth.**

Ni ddylech ddechrau ar unrhyw waith tan ein bod ni wedi rhoi caniatâd i chi wneud hynny. Efallai y byddwn angen gwybodaeth ychwanegol – fe wnawn ni gysylltu â chi i ofyn am hyn.

Gan ddibynnu ar y gwaith, efallai y bydd hefyd angen i chi gy  wyno cais i gyrff allanol er mwyn cael caniatâd ychwanegol, e.e. awdurdod lleol (cynllunio, rheoli adeiladu neu briffyrdd, ayyb.). Eich cyfrifoldeb chi yw hyn, bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw gostau a ysgwyddir, ac ni ddylech ddechrau na chwblhau unrhyw welliannau heb y caniatâd angenrheidiol.

Efallai y bydd hefyd angen i chi gael adroddiadau ychwanegol cyn i chi ddechrau'r gwaith, e.e. adroddiad strwythurol. Eich cyfrifoldeb chi yw hyn, bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw gostau a ysgwyddir.

Os ydych chi'n gweithio mewn ardal a allai gynnwys asbestos, mae'n rhaid i chi ddefnyddio contractiwr cymwys. Mae gofyn i chi ddarparu copi o dystysgrifau'r contractiwr ac asesiadau risg llawn i ni cyn y gellir dechrau ar unrhyw waith.